# DEWIS TELEDU



Wnes i ddim synnu pan glywais bod pobl Prydain yn gwylio teledu am 3.8 awr y dydd. Wedi'r cyfan, mae rhai pobl yn troi'r teledu ymlaen cyn codi o'u gwelyau a sawl un yn gwylio'r teledu cyn mynd i'r gwaith yn y bore! A dyna fi wedi enwi dau le gwahanol i wylio'r teledu – y gegin (neu'r ystafell fyw) a'r ystafell wely.

Ond un peth dydw i ddim wedi cyfeirio ato ydy sut mae gwylio nes 'mlaen yn effeithio ar ein oriau gwylio.

Yn ddiweddar gwnaethpwyd ymchwil i arferion gwylio teledu ar ran y Radio Times.

- Ar gyfartaledd roedd 2.5 set deledu ym mhob tŷ.
- Y grŵp oedran rhwng 18 – 24 oedd â'r mwyaf o setiau teledu.
- Yr amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio'n gwylio teledu bob wythnos ydy 19.58 awr.
- Mae myfyrwyr yn treulio 13.58 awr yr wythnos yn gwylio'r teledu – 6 awr yn llai na'r rhai sydd ddim yn fyfyrwyr.

## BLE A PHRYD?

Ymddengys fod y chwyldro digidol yn parhau, gyda 47% o'r rhai a holwyd â Freeview yn eu cartrefi, a 57% yn talu i Sky a Virgin. Roedd bron pawb yn treulio amser yn gwylio'r teledu yn eu hystafell fyw - 93% - tra bo 43% yn mwynhau cyrlio i fyny yn eu hystafell wely i'w wylio hefyd.

## RECORDIO DIGIDOL


Mae llawer yn newid eu hamser gwylio'r teledu, gan symud rhaglenni i amser mwy cyfleus –yn arbennig gyda DVR (Recordyddion Fideo Digidol fel Sky). Mae'r canran sy'n gwylio rhaglenni ar amser gwahanol trwy newid amser gyda dyfais recordio wedi mwy na threblu rhwng 2006 a 2009, o 1.7% i 5.9%. Mae pobl sy'n berchen ar DVR yn recordio canran uwch o'u gwylio - 15.1%. Ond nid dyma'r unig ffordd rydyn ni'n newid amser ein rhaglenni.




## GWYLIO NES ’MLAEN

Mae 92% ohonom yn gwylio’r teledu yn fyw a 49% yn gwylio rhaglenni wedi eu recordio yn nes ’mlaen. O’r rheiny mae

34% yn gwylio nes ’mlaen ar lein
17% yn gwylio DVD
55% o fyfyrwyr yn gwylio nes ’mlaen ar lein







ⓗ zir.com

**Pa raglenni?**
Y rhaglenni sy’n cael eu gwylio fwyaf ar amseroedd nes ’mlaen ydy Top Gear, Doctor Who a Coronation Street gyda Doctor Who ar ben y rhestr.

**Pwy ydy ffefrynnau’r gwylwyr?**

| | |
|---|---|
| David Attenborough | 20% o’r bleidlais |
| Stephen Fry | 12% o’r bleidlais |
| Ant a Dec | 9% o’r bleidlais |

**A phwy mae’r gwylwyr yn ei gasau fwyaf?**
Jonathan Ross!